

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 18 Mawrth, 2016

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 23 MAWRTH 2016** am **9.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **9.00 A.M. - ADRODDIAD HUNANWERTHUSO'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

I dderbyn cyflwyniad ar Hunanwerthuso'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaaedig).

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

#### **2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYG**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION (Tudalennau 21 - 32)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2016.

**5 PROSES GYLLIDEB 2015/16** (Tudalennau 33 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17 (copi'n amgaeedig).

**6 DIWEDDARIAD AR DDIOGELU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 41 - 56)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd gweithredu'r cynllun gweithredu a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol ym mis Awst, 2015.

**7 GWYDNWCH ARIANNOL CYNGHORAU YNG NGHYMURU – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF** (Tudalennau 57 - 82)

I dderbyn adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid, ar yr asesiad wedi'i gwblhau, a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, o 'wydnwch ariannol' y Cyngor yn dilyn ymlaen o astudiaeth genedlaethol a gyhoeddwyd y llynedd, a oedd wedi ei dosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

**8 RHEOLI RISG DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL** (Tudalennau 83 - 90)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (copi'n amgaeedig) ar y newidiadau sydd eu hangen yn y ffordd y rheolir risg yn y Cyngor.

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

I ystyried adroddiad ar lafar gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Jason McClellan (copi'n amgaeedig) ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**10 ADRODDIAD DIWEDDARU RHEOLI'R FFLYD GORFFORAETHOL** (Tudalennau 91 - 102)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd gweithredu'r Cynllun Gweithredu a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli'r Fflyd Gorfforaethol ym mis Hydref, 2015.

**11 RHEOLAETH ARIANNOL YSGOLION - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Ystyried adroddiad llafar mewn perthynas â Rheolaeth Ariannol Ysgolion.

**12 POLISI RHANNU PRYDERON** (Tudalennau 103 - 128)

I ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi manylion y Polisi Rhannu Pryderon sydd wedi cael ei ailfformatio, ei ddiweddarau a'i ddiwygio yn unol â deddfwriaeth.

**13 CYNLLUN ARCHWILIO 2016 - CYNGOR SIR DDINBYCH** (Tudalennau 129 - 148)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) sy'n nodi rhaglen gynlluniedig o waith ar gyfer rhaglen archwilio perfformiad ac archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru.

**14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**  
(Tudalennau 149 - 152)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi'n amgaeedig).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Ann Davies  
Stuart Davies  
Peter Duffy

Alice Jones  
Jason McLellan

**Aelod Lleyg**

Paul Whitham

**COPIAU I'R:**


Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Corporate Governance Committee

## Self-assessment January 2016


# Assurance



# Governance Framework

- What is the governance framework?
- Are you involved enough in its development?
- Can you confidently challenge the content of the Annual Governance Statement?

# Internal Audit


- 
- What is IA's role?
  - Does IA provide enough assurance?
  - How do you know IA is effective?



# Internal Audit

- Does IA provide you with enough information in the right format?
- Do you need more from IA?
- Should you meet with the HIAS at least once a year in private?

# Challenge



**How well do you  
robustly  
challenge senior  
management  
when needed?**


# Risk Management

- How well do you understand the risk management framework?
- Do you know what the Council's corporate risks are?
- How confident are you that the Council is managing its corporate risks?

# Risk Management


**What are this  
Committee's/Perfor  
mance Scrutiny's  
roles relating to risk  
management?**

# Fraud


- 
- How much do you know about fraud trends in the public sector?
  - What are the Councils key fraud risks?
  - What counter-fraud arrangements does the Council have in place?

# Ethics

Tudalen 14



What arrangements are in place to ensure good ethical behaviour by officers and members?




How confident are you that these arrangements work in practice?

# Financial Management

- What financial risks does the Council face?
- What are the specific risks relating to Treasury Management?
- How well do you understand the Statement of Accounts?

# Financial Management



**How well are you  
able to robustly  
challenge the  
Statement of  
Accounts?**



# External Audit





What is external audit's role?

How does this differ from internal audit?

How do you know external audit is effective?


# External Audit

 Does external audit provide you with enough information in the right format?


 Do you need more from external audit?

 Should you meet with the external auditor at least once a year in private?

# Committee Knowledge



Is the Chair confident in his knowledge of finance, risk management, audit and the Council's regulatory regime?



How well are you trained for your role?



Should new committee members have induction training in their new role?

# Committee Support

Tudalen 20

How well do officers support you in meetings and provide advice and guidance?

Are you adequately prepared for the Committee meetings?

Can written/verbal reports to the committee be improved?

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 27 Ionawr 2016 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Peter Duffy a/ac Jason McLellan (Cadeirydd).

Cynghorydd Meyrick Lloyd Davies, Arwel Roberts a/ac Julian Thompson-Hill yn bresennol fel arsylwyr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Rheolwr Prosiect - NE Hub (JE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

Hefyd yn bresennol - Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Mair, Y Rhyl - Gill Greenland.

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ann Davies a/ac Alice Jones.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw aelod ddatgan cysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu.

#### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2015.

Materion yn codi:-

5. Ysgol Mair, Rhyl - Adroddiad Archwiliad Mewnol:- Mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy a'r Cadeirydd nad oedd y cofnodion wedi adlewyrchu'r drafodaeth yn y cyfarfod, rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) fanylion y protocol o safbwynt darparu cofnodion nad yn gofnod llafar o'r drafodaeth. Eglurodd mai pwrpas y cofnodion oedd adlewyrchu teimlad y cyfarfod a chadarnhaodd y byddai pryderon Aelodau'n cael eu cofnodi.

**(GW i weithredu)**

8. Cofrestr Risg Gorfforaethol: - Gofynnodd Mr P. Whitham pryd y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael cyfle i ddylanwadu ar effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o safbwynt rheoli risg. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y mater wedi ei drafod gan Gadeiryddion Archwilio a'r Grŵp Is-gadeiryddion yn Rhagfyr. Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) y byddai Pwyllgor Archwilio Cymunedau'n cynnal gweithdy ar 4 Chwefror i ystyried y mater hwn a bod gwahoddiad i bob Aelod ei fynychu. O ran rheoli risg roedd Bwrdd Gweithredu ar gyfer y Ddeddf a byddai gwahanol ffrydiau gwaith yn cael eu nodi ac yn cael eu hystyried gan swyddogion yn Chwefror. Byddai'r materion hyn yn cynnwys sut byddai'r Pwyllgor Craffu'n ystyried sut i weithredu a monitro'r Ddeddf ac yn ystyried newidiadau posibl i dempledi adrodd er mwyn cynnwys gofynion y Ddeddf.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) ei fod yn rhagweld y byddai adroddiad yn cael ei baratoi ar yr elfen risg. Mewn ymateb i gais gan Mr Whitham, cytunwyd y byddai Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn darparu adroddiad diweddarau yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth o safbwynt rheoli risg, a chynnwys diddordebau ehangach y Pwyllgor o safbwynt y Ddeddf.

**(GW, AS i weithredu)**

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod, fod y cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

## **RHAN II**

### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** – gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bod yr eitemau canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y diffinnir hi ym Mharagraffau 14 ac 18 Rhan 4, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## **5 YSGOL MAIR RHYL- CYNLLUN ADFER ARIANNOL**

Roedd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Archwilio Mewnol a oedd yn darparu manylion am Gynllun Adfer Ariannol (CAA) Ysgol Mair, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Dywedwyd wrth Aelodau gan fod Estyn ar fin cynnal Arolwg yn Ysgol Mair, nad oedd y Pennaeth yn gallu mynychu'r cyfarfod. Cynrychiolid yr ysgol gan Ms Gill Greenland, Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr, a diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor i Ms Greenland am fynychu'r cyfarfod.

Cyflwynodd Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad ac eglurodd fod yr adroddiad Archwilio Mewnol yn Awst wedi tynnu sylw at ddiffyg ariannol yn Ysgol Mair, a bod angen i'r ysgol ddatblygu CAA cadarn. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol, yn amodol ar weithredu CAA, fod Atodiad A, y Cynllun Gweithredu o fewn yr Arddodiad Archwilio wedi ei ddatblygu. Eglurwyd gan fod y CCA arfaethedig yn golygu lefel o newid sylweddol bod cyfarfodydd wedi eu cynnal gydag Adnoddau

Dynol Strategol i drafod prosesau a gyda'r Adran Addysg i'w hysbysu o'r camau arfaethedig.

Rhoddodd Ms G. Greenland fanylion cefndirol a oedd yn berthnasol i'r ysgol, sef:-

- Nad oedd yr ysgol ar unrhyw adeg yn y gorffennol wedi bod mewn diffyg.
- Yn 2015 roedd gan yr ysgol greyd o £11k.
- Roedd yn syndod bod diffyg o £42k wedi ei nodi.
- Roedd problemau wedi codi yn sgil ymddiswyddiad yr Ymgynghorydd Ariannol.
- Roedd y Dirprwy Bennaeth wedi cael ei symud i helpu ysgol yn Sir y Fflint.
- Roedd yr Esgobaeth wedi cytuno i hysbysebu swydd Pennaeth.
- Ni fyddai Dirprwy Bennaeth.
- Roedd yr ysgol mewn ardal ddifreintiedig, ac roedd gan rai disgyblion ymddygiad heriol.
- Roedd yr Undeb wedi ei galw i mewn a chymorth wedi ei roi gan Adnoddau Dynol.
- Derbyniwyd gwahoddiad i ymweld ag ysgol ym Mochdre a oedd yn gweithredu heb Ddirprwy Bennaeth.
- Derbyniwyd cymorth a chyngor gan Reolwr Cyllid yr Ysgol.

Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r ysgol am fynd i'r afael a meysydd pryder eraill a nodwyd ond pwysleisiodd yr angen i fynd ati i weithredu'r CCA.

Holodd y Cynghorydd P.C. Duffy pam nad oedd y problemau ariannol hyn wedi eu nodi'n gynt, yn arbennig gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol. Eglurodd y Cynghorydd Duffy ei fod ar ddeall bod y polisiau a'r gweithdrefnau priodol eisoes wedi eu gweithredu i atal anomaleddau fel hyn. Teimlai Ms Greenland fod y prif broblemau yn deillio o'r ffaith bod Ymgynghorydd Ariannol yr Ysgol wedi gadael ei swydd. Mynegodd y Cadeirydd fod ysgol arall a oedd wedi wynebu anawsterau tebyg heb Ymgynghorydd Ariannol. Teimlai fod hwn yn fater y dylid edrych arno drwy'r Sir a phwysleisiodd yr angen i ddarparu cyngor a chanllawiau ariannol cadarn. Amlinellodd Pennaeth Archwilio Mewnol y newidiadau a oedd bellach wedi eu gweithredu i'r broses a phwysleisiodd bwysigrwydd rôl Rheolwyr Ariannol.

Eglurodd y Cynghorydd S.A. Davies nad oedd y gyd-ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn ofyniad statudol, ac awgrymodd y gellid arbed arian sylweddol drwy beidio â darparu'r cyfleuster yma. Teimlai fod angen gwell a rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yr ysgol ac y byddai'n fuddiol.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at broblemau blaenorol a oedd wedi deillio o ddiffyg rheolaeth ariannol briodol, a phwysleisiodd yr angen i edrych ar themâu a thueddiadau posibl a oedd yn dod i'r amlwg dro ar ôl tro. Pwysleisiodd yr angen am sicrwydd fod trefniadau ariannol a mecanweithiau priodol yn eu lle rhag i hyn ddigwydd eto yn y dyfodol. Amlinellodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill rôl Rheolwyr Clwstwr Ariannol a oedd yn gyfrifol am dynnu sylw at broblemau posibl i'r Cyrff Llywodraethu dan sylw. Eglurodd Ms Greenland nad oedd Ysgol Mair yn rhan o Glwstwr Ariannol yn Rhyl ac awgrymwyd efallai bod hyn wedi cyfrannu at yr anomaleddau dan sylw.

Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i fynd i'r afael â mater Monitro Ysgol Mair. Byddai hynny'n cynnwys trafodaethau gydag Adnoddau Dynol, ynglŷn â materion staffio o ran y CAA, a gosod amserlenni er mwyn adrodd yn ôl ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Atgoffodd Pennaeth Archwilio Mewnol Aelodau fod y CAA yn Gynllun dwy flynedd. Amlinellodd swyddogion yr wybodaeth ar gyfer monitro'r CAA gan y Swyddog 151 a'r Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau. Amlinellodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) y rolau cylch gorchwyl a monitro a wnaed gan Grŵp Monitro Safonau Ysgol a'r Fforwm Cyllideb Ysgol.

Ystyriodd y Pwyllgor y broses fonitro a chytunwyd gofyn i Reolwr Ariannol yr Ysgol, Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau a'r Pennaeth fynychu cyfarfod y Pwyllgor ym Medi 2016 i ddarparu adroddiad cynnydd o safbwynt gweithredu'r CAA.

O ran y mecanweithiau monitro cytunwyd i ail-edrych ar y broses Archwilio Mewnol ar gyfer cyllid yr ysgol, a bod Pennaeth Archwilio Mewnol yn cylchredeg copïau i Aelodau'r Pwyllgor. Cytunwyd y gellid cyflwyno sylwadau Aelodau i gyfarfod y pwyllgor fis Mawrth, 2016 a chyfeirio'r mater i Gadeiryddion Archwilio a'r Grŵp Is-gadeiryddion i'w trafod.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynglŷn â diffyg cefnogaeth a chyfraniad canfyddedig yr Esgobaeth cytunwyd bod Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) yn ysgrifennu at yr Esgobaeth i dynnu sylw at y materion a'r pryderon canlynol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- Fod y Pwyllgor wedi derbyn adroddiad am CAA o safbwynt un o'u hysgolion.
- Gofyn i ba raddau y mae'r Esgobaeth yn darparu cefnogaeth a chynghor i ysgolion ac yn cynorthwyo gyda materion ariannol.
- Gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r hysbyseb am swydd yn yr ysgol.
- Darparu manylion unrhyw faterion pryder eraill y maen nhw o bosibl yn ymwybodol ohonynt, o ran Ysgol Mair neu unrhyw ysgol Esgobaeth arall yn y Sir.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD** – bod:-

- (a) y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad
- (b) gofyn i Reolwr Ariannol yr Ysgol, Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau a'r Pennaeth fynychu cyfarfod y Pwyllgor ym Medi 2016 i ddarparu adroddiad cynnydd o safbwynt gweithredu'r CAA Pennaeth Archwilio Mewnol Pwyllgor.
- (c) cyflwyno sylwadau Aelodau i gyfarfod y pwyllgor fis Mawrth, 2016, a bod Pennaeth Archwilio Mewnol yn cylchredeg copïau i Aelodau'r Pwyllgor.
- (d) Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) yn ysgrifennu at yr Esgobaeth i dynnu sylw at y materion a'r pryderon canlynol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor.  
(GW, IB, RW i weithredu)

**Ar y pwynt hwn aeth y cyfarfod yn ôl i RAN I**



## 6 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb referniw ar gyfer 2016/17.

Rhoddodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill, gyda chymorth y Prif Gyfrifydd, grynodedd manwl o'r adroddiad. Roedd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:-

- Cyflwynwyd y cynnydd diweddaraf o ran y broses o osod y gyllideb i Weithdy Cyllideb yr Aelodau ar 14 Rhagfyr 2105. Amlinellwyd y gwahanol gynigion a ystyriwyd i sicrhau arbedion.
- Cyhoeddwyd cyllideb drafft a Setliad Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yn ddiweddarach eleni o ganlyniad i amseru Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd hyn wedi ei gynnwys yn y broses cynllunio'r gyllideb ac wedi arwain at gyflwyno pecyn o gynigion i'w cymeradwyo yn Rhagfyr. Roedd y pecyn yn dod i gyfanswm o £1.2m ac yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd ac addasiadau technegol, ond nid oedd yn cynnwys cynigion i dorri ar wasanaethau na chynyddu taliadau.
- Roedd goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2015/16 wedi ei grynhoi yn yr adroddiad, gyda'r Setliad yn llawer gwell na'r disgwyl.
- Roedd adroddiad i'r Cyngor yn Rhagfyr wedi manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf ac roedd tybiaethau'n dangos bod bwch o £2m, yn y gyllideb o hyd. Darparwyd manylion yng ngweithdy'r gyllideb ac roedd crynodeb wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.
- Hefyd roedd manylion am y newidiadau i werth y Setliad, a oedd yn caniatáu cynnig i ostwng lefel y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor o 2.75% i gyfartaledd o 1.5%, wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.
- Roedd y tybiaethau hyn wedi arwain at sefyllfa ariannol gadarnhaol o £480k, gyda'r Setliad ar gyfer 2016/17 yn well na'r disgwyl am un flwyddyn. Darparwyd tabl yn crynhoi sefyllfa cynllunio'r gyllideb ar gyfer y dyfodol. Amlinellwyd manylion y risgiau, ynghyd â'r camau i'w gweithredu er mwyn eu lliniaru.
- Ni fyddai Setliad Terfynol Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi tan fis Mawrth. Fodd bynnag, roedd sicrwydd wedi ei roi na ddylid gweld unrhyw symudiad negyddol rhwng gwerthoedd y Setliad Drafft Dros Dro a'r un Terfynol Byddai cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru'n cael ei chyflwyno i'r Senedd ar 8 Mawrth.
- Roedd y broses Rhyddid a Hyblygrwydd wedi dod i ben drwy osod cyllideb 2016/17. Byddai'r gwaith o fonitro perfformiad y gyllideb yn parhau i gael ei adrodd i'r Cabinet, gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn yn monitro effaith penderfyniadau'r gyllideb.
- Cadarnhawyd y byddai proses gyllidebol newydd yn cael ei datblygu ar gyfer 2017/18.
- Cyflwynwyd cam terfynol y broses gyllidebol ddwy flynedd Rhyddid a Hyblygrwydd. Mwyafrif helaeth yr arbedion, dros 80%, oedd effeithlonrwydd neu arbedion moderneiddio gan arwain at effaith lai sylweddol ar wasanaethau i'r cyhoedd.
- Eglurwyd mai nod y broses gyllidebol oedd sicrhau bod y Cyngor yn darparu cyllideb gytbwys. Roedd yn debygol y byddai gostyngiad i gyllid ALI yng Nghymru'n

parhau yn y tymor canolig, gyda phenderfyniadau cyllidebol yn dod yn anos ac yn galw am amser paratoi hirach.

Amlinellodd y Cyngorydd Thompson-Hill yr amserlenni ar gyfer y broses adrodd ar y gyllideb a gofynnodd am arweiniad ynglŷn â phryd i gyflwyno adroddiadau ar gyfer y dyfodol. Teimlai'r Cadeirydd y byddai o fudd pe bai'r broses bresennol o gynnwys eitem fusnes safonol ar gyfer proses y gyllideb ar bob rhaglen y Pwyllgor, yn parhau, ynghyd â darparu Gweithdai Cyllideb i Aelodau. Teimlai hefyd fod angen ymgynghori mwy â'r cyhoedd a chydabu fod gwahanol safbwyntiau ynglŷn â mabwysiadu proses ymgynghori newydd. Awgrymwyd a chytunwyd i gysylltu â'r Grwpiau Gwleidyddol dan sylw er mwyn annog Aelodau i gyflwyno eu barn a'u hawgrymiadau ynglŷn â'r broses gyllidebol. Mynegodd y Cyngorydd S.A. Davies ei gefnogaeth i barhau â'r broses bresennol, a thynnodd sylw at yr angen a phwysigrwydd archwilio'r mecanweithiau a fabwysiadwyd. Roedd Mr P. Whitham yn cefnogi'r farn a fynegwyd ac awgrymodd y gallai peidio â pharhau i sicrhau cynnydd beri risg gorfforaethol i'r Awdurdod.

Amlinellodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) y materion a'r cyfyngiadau technegol posibl a allai godi gyda'r sefyllfa ariannol o safbwynt datblygu Bil Llywodraeth Leol (Cymru), ac uno Awdurdodau Lleol yn sgil hynny.

Awgrymodd Mr P. Whitham gan fod yr adroddiad yn cyflwyno cam terfynol y broses gyllidebol ddwy flynedd Rhyddid a Hyblygrwydd, y dylid cynnal adolygiad i ganfod nodau, cyflawniadau, llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd o ran helpu i sicrhau cynnydd yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn a oedd yn monitro penderfyniadau'n gysylltiedig â'r gyllideb a wnaed fel rhan o'r broses. Cyflawnwyd hyn drwy gasglu tystiolaeth ac archwilio'r mecanweithiau a ddefnyddiwyd ac a fabwysiadwyd.

**PENDERFYNWYD** – *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

- (a) yn derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ar y diweddariad diweddaraf.
- (b) gofyn i'r Grwpiau Gwleidyddol annog Aelodau i gyflwyno eu barn, a
- (c) chytuno bod adroddiad diweddar pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth, 2015.

**(RW, SG, GW i weithredu)**

## **7 ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS**

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Eglurodd y Prif Gyfrifydd fod Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Atodiad 1, yn dangos sut fyddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau yn y flwyddyn i ddod, ac yn gosod y polisiâu y mae'r swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn seiliedig arnynt. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth hon ac ar y Dangosyddion Darbodus. Roedd Adroddiad Diweddar Rheoli'r Trysorlys, Atodiad 2, yn rhoi manylion am weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2015/16.

Eglurwyd bod y ffigyrau yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn ffigyrau drafft ac y bydden nhw'n cael eu diweddarau cyn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor, yn seiliedig ar y Cynllun Cyfalaf diweddaraf a Chynllun Busnes Stoc Tai yn Chwefror, 2016.

Yn ôl Cod Rheoli'r Trysorlys CIPFA, roedd yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus bob blwyddyn. Roedd yn rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol adolygu'r adroddiad cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2016.

Byddai'r Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys ddwywaith y flwyddyn a byddai Rheoli'r Trysorlys yn edrych ar ôl arian y Cyngor, a oedd yn rhan hollbwysig o waith y Cyngor, gan fod tua £0.5bn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn. Ar unrhyw adeg roedd gan y Cyngor o leiaf £10m o arian felly roedd angen sicrwydd bod yr adenillion gorau posibl yn cael eu sicrhau heb risg ariannol, sef y rheswm pam fod arian yn cael ei fuddsoddi gyda nifer o gyrrff ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor oedd:-

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch);
- sicrhau bod modd cael yr arian yn ôl pan oedd ei angen (hylifedd);
- sicrhau eu bod yn cael adenillion boddhaol (arenillion).

Roedd Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Roedd yr adroddiad yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod terfynau ar weithgaredd Rheoli Trysorlys y Cyngor ac yn dangos bod benthyciadau'r Cyngor yn fforddiadwy.

O ran y Dangosyddion Darbodus, roedd dangosyddion Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y ceisiadau cyfalaf arfaethedig diweddaraf a'r dyraniadau bloc, a byddai'r rhain yn cael eu diweddarau cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor ei gymeradwyo ar 23 Chwefror 2016.

Roedd dangosyddion Cyfrif Refeniw Tai wedi eu cyfrifo ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf o Gynllun Busnes y Stoc Tai, ond byddent yn cael eu diwygio cyn eu cyflwyno i'r Cyngor unwaith y byddai wedi cytuno ar Gynllun Busnes terfynol y Stoc Tai. Roedd y Dangosyddion Darbodus unigol a argymhellwyd i'w cymeradwyo wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 Atodlen A.

Tynnodd y Prif Gyfrifydd sylw Aelodau at y meysydd canlynol yn Atodiad 1:-

- Datganiad Darpariaeth Refeniw Gofynnol
- Cymhareb Cronfa'r Cyngor
- Gofyniad Cyllid Cyfalaf a chyfanswm dyledion
- Goblygiadau'r elfen PFI a lleihad arian a ddelir
- Parti i Gontract Buddsoddiad a Gymeradwyir a Therfynau
- Gofynion Hyfforddiant

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd S.A. Davies, rhoddodd y Cyngorydd Thompson-Hill a'r Prif Gyfrifydd fanylion trefniadau benthyca presennol a hanesyddol, cyfraddau a chostau'r Cyngor.

Tynnwyd sylw gan Mr P. Whitham at y mater o ddarparu Hyfforddiant i Aelodau fel y cyfeirir ato ar Dudalen 38, 8.1.1 o Atodiad 1. Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) at y gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd ar gyfer darparu hyfforddiant, ac eglurodd bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael i'r Aelodau dan sylw er mwyn sicrhau eu bod yn deall y prosesau perthnasol. Cytunodd Aelodau fod sesiwn hyfforddiant ar Reoli'r Trysorlys yn cael ei chynnal 30 munud cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys eitem fusnes yn ymwneud â Rheoli'r Trysorlys, a bod pob Aelod yn cael ei wahodd i'r sesiwn.

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a gyflwynwyd gan Mr P. Whitham:-

- Cytunwyd y byddai manylion pellach ynglŷn â diddymu'r PWLB yn cael eu darparu pan fydden nhw ar gael.
- Cadarnhawyd bod trefniadau bancio'r Cyngor yn amodol ar y Strategaeth Gaffael.
- Cyflwynwyd yr adroddiad ar Fonitro Cyfalaf i'r Cabinet.
- Gellid cynnwys manylion ynglŷn â gweithredu REPOs yn sesiwn Hyfforddiant Aelodau ym Medi, 2016, ar ôl derbyn ac egluro manylion.
- Byddai'r Adolygiad Archwilio a fyddai'n ei gynnal yn Chwefror, 2016, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ebrill 2016.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD** – *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-*

- (a) *Derbyn a nodi'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17 a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19 (Atodiad 1).*
  - (b) *Nodi adroddiad diweddar Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 2).*
  - (c) *Cytuno bod sesiwn hyfforddiant ar Reoli'r Trysorlys yn cael ei ddarparu a bod pob Aelod yn cael ei wahodd.*
  - (d) *Gofyn am fanylion pellach ynglŷn â diddymu'r PWLB pan fyddent ar gael.*
  - (e) *Cytuno bod yr Adolygiad Archwilio a gynhelir yn Chwefror 2106 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ebrill 2016, a*
  - (f) *Gofyn am gynnwys fanylion ynglŷn â gweithredu'r REPOs yn sesiwn Hyfforddiant Aelodau ym Medi, 2016.*
- (RW, SG, IB i weithredu)**

## **8 ADRODDIAD HUNAN WERTHUSO'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cytunodd Aelodau gan fod rhai o Aelodau'r Pwyllgor yn absennol, a nes bod Aelod wedi ei benodi i'r lle gwag ar y Pwyllgor, y byddai'r eitem hon yn cael ei gohirio nes byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod ym Mawrth, 2016.

Cytunodd Pennaeth Archwilio Mewnol i anfon e-bost at Aelodau'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd a diddordeb yr eitem hon i Aelodau newydd y Pwyllgor.

Cytunodd Aelodau fod cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a oedd i'w gynnal ar 16 Mawrth, 2016 yn dod ynghyd 30 munud yn gynt na'r hyn a drefnwyd, am 9.00 a.m. er mwyn ystyried yr eitem fusnes hon.

**PENDERFYNWYD –**

- (a) *Gohirio'r eitem a'i hystyried cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mawrth, 2016.*
- (b) *bod y cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 16 Mawrth, 2016 yn dod ynghyd 30 munud yn gynt na'r hyn a drefnwyd, am 9.00 a.m. er mwyn ystyried yr eitem fusnes hon, a*
- (c) *bod Pennaeth Archwilio Mewnol i anfon e-bost at Aelodau'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd a diddordeb yr eitem hon i Aelodau newydd y Pwyllgor.*

**(IB a GW i weithredu)**

**9 RHEOLI FFLYD GORFFORAETHOL – ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Roedd adroddiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol, ar adroddiad Archwilio Mewnol diweddar i Reoli Fflyd Gorfforaethol wedi cael sgôr sicrwydd 'Isel', wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Cyflwynodd Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor ar yr adroddiad Archwilio Mewnol, a bod yn gytûn ynglŷn â'r sicrwydd fod y Cynllun Gweithredu o fewn yr adroddiad yn cael ei weithredu'n effeithiol o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Cadarnhaodd fod y rhan fwyaf o'r gwaith a nodwyd wedi ei gwblhau a rhoddodd amlinelliad byr o'r adroddiad Archwilio Mewnol Llawn a oedd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Roedd y prif faterion a oedd yn codi wedi eu crynhoi yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol fod 'cyfarfod uwchgyfeirio' wedi ei gynnal cyn cyflwyno'r adroddiad archwilio terfynol gyda Phennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Arweinydd Arweiniol y Cabinet ac uwch reolwyr i drafod yr adroddiad archwilio a chytuno ar Gynllun Gweithredu.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy ynglŷn â phwysigrwydd cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol ei fod wedi egluro yn y cyfarfod blaenorol na fyddai'n bosibl oherwydd amserlenni i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r cyfarfod hwn, a chytunwyd i'w ddiweddarau ar lafar.

Cadarnhaodd Rheolwr Prosiect (Hwb Gogledd Ddwyrain) (PMNEH) fod cynnydd wedi ei gymysgu â rhai problemau yr oedd angen rhoi sylw iddynt o hyd er nad oeddent yn risg sylweddol i'r Awdurdod, gan gyfeirio'n benodol at lefel y gwaith yn ymwneud â thargedau'r gwasanaeth gwastraff.

Eglurodd Pennaeth Archwilio Mewnol fod yr adroddiad dilynol cyntaf wedi ei baratoi'n ddiwedda iawn a'u bod yn disgwyl am ymateb. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol fod y Polisi Cludiant yn cael ei adolygu ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain. Ar gais Aelodau cytunwyd y byddai copi o'r Polisi Cludiant yn cael ei gylchredeg a'r adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth, 2016.

Yn sgil trafodaeth bellach:

**PENDERFYNWYD –**

- (a) *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.*
  - (b) *Bod adroddiad diweddarau'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth, a*
  - (c) *bod copi o'r Polisi Cludiant yn cael ei gylchredeg yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth.*
- (IB, JE i weithredu)**

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (wedi ei chylchredeg ymlaen llaw) i'w hystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

23 Mawrth, 2016:-

- Bod cyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth yn dod ynghyd 30 munud yn gynt nag a drefnwyd, am 9.00a.m. er mwyn ystyried Adroddiad Hunan Werthuso'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad i'w gynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer Mawrth, er mwyn rhoi diweddariad ar reoli risg a diddordebau ehangach y Pwyllgor o ran gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

27 Ebrill, 2016:-

- Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraidaidd (HLHRDS) y byddai'r gweithdy a drefnwyd i ystyried y Cyfansoddiad bellach yn cael ei aildrefnu. Cytunodd Aelodau i gynnwys yr eitem fusnes am y Cyfansoddiad yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor yn Ebrill 2016.

Cytunodd Aelodau fod Pennaeth Archwilio Mewnol yn cylchredeg adroddiad gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor o safbwynt rheolaeth ariannol Ysgol Mair, Rhyl. Cytunwyd i anfon unrhyw bryderon gan Aelodau'r Pwyllgor at y Cadeirydd neu Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraidaidd (HLHRDS).

Cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai adroddiad pellach am Ysgol Mair, Rhyl yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym Medi, 2016.

***PENDERFYNWYD*** – *yn amodol ar yr uchod, fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*  
***(GW, AS, IB, CW i weithredu)***

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>23 Mawrth 2016</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Steve Gadd, Prif Gyfrifydd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Proses y Gyllideb 2017/18</b>

---

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18.

## 2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried y diweddariad diweddaraf a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

## 4. **Manylion yr Adroddiad**

Roedd yr adroddiad blaenorol ym mis Ionawr yn crynhoi'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd a lwyddodd i ddarparu cyllidebau cytbwys ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Byddwn yn parhau i lunio adroddiadau monitro perfformiad cyllideb misol i'r cabinet fel arfer ac mae'r Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn ar waith i fonitro effaith penderfyniadau cyllidebol a gymerir fel rhan o'r broses.

Ar ôl derbyn y Setliad Terfynol ddechrau mis Mawrth mae'r gwaith wedi dechrau ar ddiffinio proses newydd y gyllideb i gyflwyno cyllideb 2017/18. Er bod y rhagdybiaethau a fydd yn llywio manylion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'r broses ei hun yn dal i gael eu datblygu, gellir amlinellu'r tybiaethau a'r egwyddorion cyffredinol canlynol.

### **Tybiaethau Allweddol yn Llywio Datblygiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig**

- **Cyllid y Llywodraeth** - y rhagdybiaeth yw y bydd Grant Cynnal Refeniw yn parhau i leihau wrth i LIC barhau i ddiogelu'r GIG a meysydd eraill ar draul llywodraeth leol. Yr amcangyfrif presennol yw y bydd gostyngiad o 1.5% mewn cyllid (gostyngiad o 1.2% yn 16/17) yn seiliedig ar Ddatganiad yr Hydref a gwaith a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- **Ariannu lleol** - Fel yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyhoeddwyd yn flaenorol tybir y bydd cynnydd o 2.75% mewn Treth y Cyngor. Mae cysoni gyda chynghorau eraill yn debyg o fod yn fater yn fwy cyffredin yn y dyfodol.
- **Gwarchod Ysgolion** - Os yw addewid y gweinidogion yn parhau ar ei ffurf bresennol y tu hwnt yr etholiad a bod y cyngor yn cydymffurfio, lefel y cynnydd i gyllidebau ysgolion fydd +1.93% yn 17/18, sy'n fwy na dwbl y rhagdybiaeth gynllunio wreiddiol ar gyfer 16/17 (a oedd yn seiliedig ar +0.9%). Yn ogystal, mae demograffeg disgyblion yn codi yn 17/18 (ar ôl tair blynedd o ostyngiad) gyda chost bosibl o £656,000. Ers cyflwyno'r amddiffyniad ysgolion, mae ysgolion wedi ariannu pob cynnydd mewn cyflogau a chostau cysylltiedig.
- **Tâl a Phensiynau** – Y tybiaethau ar gyfer dyfarniad cyflog yw gyfartaledd o +1%. Mae costau ar gyfer cynyddu pensiwn yn cael eu cynnwys, ond mae'r trafodaethau gyda'r actiwariaid yn parhau i brofi'r posibilrwydd o rewi lefelau am y tair blynedd nesaf.
- **Pwysau Corfforaethol Eraill** - Yn cynnwys Ardoll Tân, costau aelodau, premiymau yswiriant, CTRS, costau ynni, ac ati .
- **Pwysau Penodol o fewn Gofal Cymdeithasol** - Mae'n debygol y bydd angen cynnwys cydnabyddiaeth o bwysau cynyddol yn y maes hwn, er y tybir y bydd y gwasanaeth yn ariannu rhywfaint o hyn drwy ail-fuddsoddi arbedion effeithlonrwydd.
- **Defnyddio Balansau** - Gan nad oes wedi bod angen balansau i'r graddau a ganiateir ar ei gyfer yng nghyllideb 15/16, gellid darparu cyllid ychwanegol yn 17/18 heb leihau balansau y tu hwnt i'r lefelau a ragwelwyd pan osodwyd cyllideb 15/16.

### **Egwyddorion Proses y Gyllideb 2017/18**

- **Cyllideb 2017/18** - Bydd y broses yn canolbwyntio ar gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18 ac ni fydd gofyn i'r Aelodau gymeradwyo arbedion ar gyfer y blynyddoedd i ddod, er y bydd effaith barhaus i rai arbedion.
- **Casglu data** – Mae Cyllid wedi datblygu cyfres o ffurflenni y bydd disgwyl i wasanaethau eu llenwi i lywio proses y gyllideb a hwyluso penderfyniadau. Yn benodol, bydd y ffurflenni yn ein caniatáu i nodi arbedion effeithlonrwydd, opsiynau i leihau lefelau gwasanaeth a chyllidebau, pwysau gwasanaeth penodol, y defnydd o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth a'r polisiau ffioedd a thaliadau yn y gwasanaeth.
- **Targed Effeithlonrwydd** - Mae'n debygol y bydd gwasanaethau'n cael targed arbedion effeithlonrwydd cymedrol (e.e. 1%) y bydd disgwyl i bob gwasanaeth eu cyflawni drwy arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol (h.y. nad ydynt yn ymwneud â gostyngiad yn lefel gwasanaeth neu gynnydd mewn taliadau).
- **Targed Arbedion** – Mae'r targed effeithlonrwydd yn annhebygol o fod yn ddigon i gydbwysu'r gyllideb felly bydd targed arbedion ychwanegol hefyd

yn cael ei gyfrifo ar gyfer y Cyngor a bydd cynigion cyllideb yn cael eu datblygu i gyrraedd y targed. Mae'r targed yn debygol o fod yn fwy na'r bwch yn y gyllideb a ragwelir er mwyn caniatáu i Aelodau wneud dewisiadau i gydbwysu'r gyllideb. Cydnabyddir y gallai nifer o'r awgrymiadau hyn gynnwys prosiectau gweddnewid a allai'n rhwydd olygu gostyngiad mewn lefelau gwasanaeth neu newidiadau yn y dulliau o gyflwyno gwasanaeth. Bydd rhai o'r cynigion yn rhai a gafodd eu dwyn ymlaen o dan Rhyddid a Hyblygrwydd ond nad oedd eu hangen i gydbwysu'r gyllideb yn 2016/17.

- **Cynigion y Gyllideb** - Am bob cynnig a wneir bydd taflen a fydd yn cynnwys mwy o fanylion am y cynnig, yr effaith bosibl (cydraddoldeb, swyddi, ansawdd gwasanaeth, lleoliad, iaith ac ati), risgiau a gofynion rheoli prosiect (h.y. a yw'r cynnig yn debygol o ddod yn brosiect a sut y byddai'n cael ei reoli). Bydd hefyd angen i gael rhywfaint o asesiad o effaith mewn perthynas â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol er bod angen datblygu'r union ofynion o ran yr angen hwn ymhellach.
- **Amserlen y Gyllideb** - Mae amserlen ddrafft wedi cael ei datblygu, er ei bod yn amlwg yn agored i newidiadau pellach (gweler Atodiad 1). Mae'r amserlen yn ymhelaethu ar bedwar cam canlynol proses y gyllideb:

- 1) Diffinio a datblygu'r broses
- 2) Nodi cynigion cychwynnol
- 3) Ymgynghori ar, a chwblhau, cynigion
- 4) Y camau cymeradwyo terfynol

Bydd pob cam yn caniatáu ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â'r budd-ddeiliaid perthnasol.

Bydd diweddariad pellach yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf ac erbyn hynny byddwn wedi ymgynghori ar broses y gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac wedi eu cymeradwyo.

## 5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni strategaeth y gyllideb a gytunwyd arni yn sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Yn seiliedig ar dybiaethau presennol o ran pwysau ariannu a chost, rhagwelir y bydd bwch o £4.4 miliwn yng nghyllideb 2017/18.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Mae AEC wedi'i gwblhau ar gyfer pob cynnig perthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i gyflawni cyllidebau 2015/16 a 2016/17.

Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o broses y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 ac yn amlgu cyfnodau ymgynghori allweddol yn ystod pedwar cam y broses sef diffinio'r broses, nodi a chwblhau cynnig hyd at y camau cymeradwyo terfynol. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, Tîm Rheoli Corfforaethol, SLT, Briffio'r Cabinet, Briffio'r Cyngor a'r Undebau Llafur. Bydd angen ymgynghori pellach ar gynigion penodol gyda budd-ddeiliaid penodol a fydd yn cael eu nodi gan y gwasanaethau yn nhempledi'r cynigion.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd dros lefel y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud cynllunio ariannol o dan amgylchiadau sydd eisoes yn anodd hyd yn oed yn fwy heriol. Er bod y setliad refeniw ar gyfer 2016/17 yn well na'r hyn roedd y cyngor wedi cael ei arwain i gredu y byddai ac mae hyn yn amlwg i'w groesawu, mae'n parhau i fod diffyg arwyddion cynllunio ariannol ystyrlon ar gyfer y dyfodol. Y gobaith yw mynd i'r afael â hyn yn dilyn etholiadau mis Mai 2016 gan fod yr ansicrwydd ac amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn sydd wedi bod yn norm ers 2013 yn peri risg sylweddol i gyflwyno cyllidebau yn y dyfodol.

Er na wyddom yr union lefelau, mae'n debygol y bydd gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn ynddo'i hun yn ddigonol yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau ar y gyllideb yn mynd yn galetach ac mae'n debyg y bydd angen rhagor o amser i'w cyflawni.

Bydd proses y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn helpu i gyflwyno cyllideb gytbwys a bydd yn galluogi'r cyngor i ystyried rhagdybiaethau cyllid allweddol, pwysau gwasanaeth, lefelau arian parod wrth gefn a lefelau ffioedd a thaliadau yn y Cyngor.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd wedi'i gynllunio ac amserol.

#### **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**


Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 1**

**PROPOSED BUDGET PROCESS 2017/18**

**BUDGET OVERSIGHT - Monthly Updates to CET, Corporate Governance Committee & Cabinet Briefing**



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag



<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	23 Mawrth, 2016
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol
<b>Teitl:</b>	<b>Diweddariad Diogelu Corfforaethol</b>

---

**1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol ym mis Awst 2015.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Mae'r adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau mewn diogelu corfforaethol ers cyhoeddi adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Rhoddodd yr adroddiad archwilio 'Sicrwydd Isel' felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn derbyn sylw.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Y Pwyllgor i adolygu cynnydd ac i benderfynu a oes angen adroddiad cynnydd pellach.

**4. Manylion yr adroddiad**

Atodiad 1 yw'r adroddiad dilynol i'r Archwiliad Mewnol sy'n dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud wrth weithredu'r cynllun gweithredu. Yn benodol, mae llywodraethu wedi gwella ac mae gan y Panel Diogelu raglen waith mwy penodol fel y gellir blaenoriaethu ei waith a monitro perfformiad. Bellach mae mwy o adnoddau pwrpasol yn cael eu defnyddio ar gyfer diogelu corfforaethol trwy gael Cadeirydd y Panel i gynyddu ei gyfraniad, gan gynnwys cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y Panel gwasanaeth.

Mae rhywfaint o waith dal i'w wneud i sicrhau bod aelodau o staff ac aelodau etholedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu corfforaethol, gan gynnwys ymgyrch hybu i lansio'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd. Yn ogystal, mae angen datblygu a rhoi ar waith y modiwl hyfforddiant corfforaethol a gynlluniwyd ac mae angen i bob aelod etholedig i fynychu'r sesiynau hyfforddi diogelu corfforaethol gorfodol.

O ystyried y cynnydd a wnaed gyda'r cynllun gweithredu, rydym wedi gwella ein graddfa sicrwydd i 'Canolig'.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

- 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**  
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.
Mae'r Awdurdod wedi sefydlu rheolaethau sy'n sicrhau bod ei brosesau a'i reolaeth ariannol yn gadarn, ond mae angen cryfhau ei ymagwedd at gynhyrchu incwm

20. Mae cynlluniau arbedion ac effeithlonrwydd 2015-16 y Cyngor yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni. Er gwaethaf y setliad grant heriol iawn a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi gosod cyllideb fantoledig ar gyfer 2015-16 drwy ganfod arbedion o £7.3 miliwn, cynyddu'r Dreth Gyngor 2.75 y cant a chyllido'r diffyg o £0.5 miliwn a oedd yn weddill allan o'r balansau cyffredinol.

- 
21. Roedd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2015-16 wedi eu datblygu ar draws holl adrannau'r Cyngor. Mae'r cynlluniau'n disgrifio'n eglur ymhle y gwneir yr arbedion.
  22. Mae cynllun arbedion Sir Ddinbych yn benodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol ac amserol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, roedd dros 90 y cant o'r arbedion gofynnol wedi eu cyflawni erbyn diwedd yr ail chwarter. Cyflwynir adroddiadau cyllidebol misol i'r Cabinet, ynghyd ag adroddiadau ar unrhyw ddiffygion yn yr arbedion. Mae Cynllun Arbedion 2015-16 y Cyngor yn rhoi sylw priodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol y bydd y Cyngor yn ei wynebu yn y dyfodol. Roedd rhagdybiaethau'r Cyngor wrth bennu'r diffyg disgwylidig yn gynhwysfawr a rhesymol ac wedi eu hategu gan ddata cadarn.
  23. Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn adolygu lefel ei gronfeydd wrth gefn a'i ddarpariaethau, mewn perthynas â'r cronfeydd neilltuedig yn ogystal â'r cronfeydd cyffredinol – proses sydd wedi ei hymgorffori yn y prosesau ar gyfer gosod cyllideb a chynnal gweithdai i'r aelodau. Dylid hefyd gwblhau'r broses hon yn ffurfiol yn y cyfrifon diwedd blwyddyn. Mae anghysondeb rhwng y strategaeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn fel y'i pennir yng Nghynllun Ariannol Canoldymor 2014-18 a'r ymagwedd at gronfeydd wrth gefn a wrth osod y gyllideb ar gyfer 2015-16. Mae angen rhoi sylw i'r diffyg cysondeb hwn er mwyn sicrhau bod ymagwedd y Cyngor yn gyson, a'i bolisiau a'i weithdrefnau allweddol yn cydasio'n effeithiol.
  24. Ar hyn o bryd yn ogystal, nid oes gan y Cyngor bolisi ffurfiol ar gynhyrchu incwm/codi tâl, nac ychwaith gofrestr o'r ffioedd a bennir gan y gwahanol adrannau. Er bod rhywfaint o drafod ynghylch codi tâl yn digwydd yn ystod y broses o osod cyllideb, nid yw hynny'n digwydd yn gyson ar draws y gwasanaethau, a dylid ffurfioli'r broses er mwyn sicrhau bod ymagwedd y Cyngor yn ddarbodus ac ystyriol. Yn ein hadroddiad yn 2015, **Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?**, tynnwyd sylw at y modd y mae absenoldeb polisiau cynhyrchu incwm yn cynyddu'r risg bod cynghorau'n newid gwasanaethau heb asesu'n llawn yr effeithiau posibl, er enghraifft ar bobl hŷn, a bod hynny'n tansellio eu gallu i fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn llawn.

## Llywodraethu ariannol

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol, ac mae'r rhai sy'n gyfrifol am reoli perfformiad ariannol yn cael eu dal yn gyfrifol

25. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae nifer fach o uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol wedi eu dyrchafu, ac er mwyn cynnal y buddsoddiad yn y cyfrifoldebau ariannol a sicrhau y cyflawnir y cyfrifoldebau hynny'n effeithiol, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod galluedd y gwasanaeth ariannol yn parhau'n ddigonol.
26. Mae fframwaith cadarn yn bodoli ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol o fewn y Cyngor. Mae system newydd y Cyngor ar gyfer rhagweld, monitro ac adrodd, sef

---

'Cynllunio Cydweithredol', yn effeithiol o ran sicrhau ymagwedd gyson at weithredu rheolaethau cyllidebol ledled y Cyngor. Fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Gwella Blyneddol diwethaf, mae Cynllunio Cydweithredol yn 'sicrhau... dull mwy cyson o reoli'r gyllideb ar draws y Cyngor drwy goladu gwybodaeth gyllidebol ar system ar-lein a lleihau'r angen i ddefnyddio amrywiol daenlenni o fewn yr adrannau gwasanaeth gwahanol'.

- 27.** Cyflwynir adroddiad cyllidebol misol i'r Cabinet, sy'n dangos yr alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn (yn hytrach na'r sefyllfa ar adeg benodol), o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Mae'r adroddiadau misol hyn yn cynnwys manylion am unrhyw amrywiant arwyddocaol yn y gwariant, ynghyd â'r camau a gymerwyd i'w unioni.

# Atodiad 1

## Perfformiad gyferbyn â dangosyddion ariannol allweddol


Mae defnyddio dangosyddion ariannol allweddol wrth baratoi cynlluniau ariannol canoldymor yn darparu mewnwelediad i effeithiolrwydd y trefniadau rheolaeth ariannol a'r cydnerthedd ariannol, yn enwedig mewn perthynas â materion pwysig fel hylifedd, gerio, enillion ar fuddsoddiadau a lefelau benthyca. Fel rhan o'n gwaith ar gydnerthedd ariannol, rydym wedi cydgrynhoi data o ddatganiad cyfrifon y Cyngor ei hunan, a hefyd wedi defnyddio data a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Perfformiad gyferbyn â'r gyllideb

Buom yn edrych ar yr hanes o danwario a gorwario gyferbyn â'r cyllidebau refeniw, ac ar y perfformiad o ran alldro'r gwariant refeniw net. Mae hyn yn helpu i ddilysu cryfder y trefniadau cynllunio yn ogystal ag effeithiolrwydd y rheolaethau ariannol. Bydd hanes da o gyflenwi gwariant ac arbedion sydd yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd yn ddangosydd cryf o'r gallu i gyflenwi cynlluniau ariannol, gan gynnwys arbedion mawr, yn y dyfodol.


Mae'r cynghorau a fydd yn parhau i orwario gyferbyn â'r cyllidebau refeniw, mewn perthynas gwasanaethau a ysgogir gan y galw, megis gofal cymdeithasol i oedolion a phlant, yn debygol o wynebu anawsterau yn y dyfodol. Bydd cynghorau'n perfformio'n dda os byddant wedi lleihau diffyg cyllidebol net i'r eithaf (neu wedi gwneud gwared bach) ac mewn sefyllfa ffafriol o ran yr alldro net. Mae'r dangosyddion canlynol yn rhai defnyddiol ar gyfer deall perfformiad.

Atodiad 1, Ffigur 1: (Gwarged)/diffyg net ar incwm a gwariant



## Atodiad 1, Ffigur 2: Gwerth cyfanswm yr arbedion refeniw?


Dangosir tanwariant yn negyddol; a gorwariant yn bositif




## Hylifedd (cyfanswm yr asedau cyfredol byrdymor dros gyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol byrdymor)

Mae'r dangosydd hwn yn dynodi a oes digon o asedau i ddiwallu'r rhwymedigaethau byrdymor. Mae'r 'gymhareb gyfredol' o asedau (sef asedau y gellir eu trosi'n arian yn rhwydd) i rhwymedigaethau (sef rhwymedigaethau byrdymor y mae'n ofynnol eu talu'n brydlon) yn dynodi'r hylifedd. Mae hylifedd yn bwysig gan ei fod yn dangos pa mor hawdd fyddai trosi asedau yn arian mewn cyfnod byr o amser, a thrwy hynny roi rhagor o ryddid ariannol i berchennog yr asedau.

Atodiad 1, Ffigur 3: Asedau cyfredol byrdymor mewn £ Miliynau




Atodiad 1, Ffigur 4: Rhwymedigaethau cyfredol byrdymor mewn £ Miliynau



Cyfrifir y gymhareb cyfalaf gweithio rwy rannu cyfanswm yr asedau cyfredol byrdymor gyda chyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol byrdymor. Mae unrhyw gymhareb islaw 1:1 yn wael iawn; yn ddelfrydol, dylai fod uwchlaw 1.5 er mwyn darparu clustog ddigonol ar gyfer yr anghenion cyfalaf gweithio. Mae cymhareb cyfalaf gweithio sydd â'i gwerth islaw 1:1 yn awgrymu y bydd y Cyngor yn wynebu problemau hylifedd yn y dyfodol, tra bo cymhareb yng nghyffiniau 1.5 yn dynodi hylifedd byrdymor da.

Atodiad 1, Ffigur 5: Cymhareb cyfalaf gweithio






## Benthyca


Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar fenthyca hirdymor (Ffigur 7) fel cyfran o'r asedau hirdymor (Ffigur 8). Cyfeirir at hyn fel y 'gymhareb gerio'.

Mae cymhareb gerio isel yn dynodi bod cyngor yn ariannol sefydlog, ac yn fwy rhydd yn gyffredinol i fenthyca, gan y bydd mewn gwell sefyllfa i dalu'r llog, o gymharu â chynghorau sydd â chymarebau uwch. Mae gerio, felly, yn fesur defnyddiol o iechyd ariannol y gorfforaeth, gan ei fod yn caniatáu gwneud cymhariaeth rhwng cyllid y cyngor a'r 'ddyled' a fenthycodd. Dylai'r gerio, yn gyffredinol, fod oddeutu 25 y cant oni bai bod yr hylifedd (gweler Ffigur 5) yn gryf iawn. Mae'r data cymhareb gerio ar gyfer Sir Ddinbych yn cynnwys benthyca i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, sydd yn ffactor ar gyfer y cynghorau hynny, yn unig, yng Nghymru lle y pleidleisiodd y tenantiaid i barhau gyda'r Cyngor yn landlord arnynt.


Atodiad 1, Ffigur 6: Cymhareb Gerio, sef benthyca hirdymor fel canran o'r asedau hirdymor



Atodiad 1, Ffigur 7: Benthycia hirdymor mewn £ Miliynau



Atodiad 1, Ffigur 8: Asedau anghyfredol hirdymor mewn £ Miliynau




---

## Cronfeydd wrth gefn

### Asedau/rhwymedigaethau net


Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar y sefyllfa net, o ran cyfanswm asedau a chyfanswm rhwymedigaethau, ac yn cysoni'r sefyllfa honno â chyfanswm y cronfeydd wrth gefn. Byddai rhwymedigaeth net yn arwydd bod y statws ariannol yn wael iawn. Mae'r Cyfanswm Asedau Net yn cynnwys: Asedau cyfredol byrdymor, asedau anghyfredol hirdymor, rhwymedigaethau cyfredol byrdymor, benthycia hirdymor a rhwymedigaethau anghyfredol hirdymor eraill.

### Atodiad 1, Ffigur 9: Cyfanswm Asedau Net mewn £ Miliynau



Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn yn cynnwys: y Gronfa Gyffredinol, y Cronfeydd Clustnodedig, Balansau Ysgolion, Cronfeydd Defnyddiadwy Eraill a Chronfeydd Annefyddiadwy.


Atodiad 1, Ffigur 10: Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn mewn £ Miliynau



### Balansau ysgolion (ysgolion a gynhelir gan y Cyngor yn unig)

Mae'r dangosydd hwn yn edrych i weld a yw'r balansau ysgolion net yn cael eu cynnal gyda diffygion ai peidio. Ar y fantolen, mae'r balansau ysgolion net yn ffurfio rhan o'r cronfeydd clustnodedig defnyddiadwy; echdynnwyd y rhain o'r nodiadau i'r cyfrifon, sy'n dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn.


Atodiad 1, Ffigur 11: Cronfeydd Balansau Ysgolion mewn £ Miliynau




### Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

Y dangosydd a ddefnyddir yma yw 'Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o'r Gwariant Refeniw Gros'. Mae hyn yn cynnwys y 'Gronfa Gyffredinol' a'r cronfeydd clustnodedig. Rhennir cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy gyda chyfanswm y Gwariant Gros, i ddarparu cymhareb sy'n dangos maint y glustog sydd ar gael i ddiogelu rhag gwariant yn y dyfodol. Mae unrhyw ffigur uwchlaw 10 y cant yn ddangosydd da o gryfder y cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod lefelau is yn dynodi gwendid o anghenraid. Dylai cynghorau ystyried a chytuno ar lefel addas o gronfeydd wrth gefn sy'n briodol i'w hamgylchiadau eu hunain, ar sail argymhelliad gan y swyddog adran 151.

Atodiad 1, Ffigur 12: Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gwariant Refeniw Gros



Atodiad 1, Ffigur 13: Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ Miliynau



# Atodiad 2

---

## Nodweddion allweddol

### Nodweddion allweddol cynllunio ariannol da

Gosodir cyllideb yr awdurdod yng nghyd-destun strategaeth ariannol hirdymor a chynllun ariannol canoldymor sy'n ymdrin â chyfnod o dair i bum mlynedd.

Mae'r awdurdod wedi nodi'n eglur yr arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Mae'r cynllun arbedion yn seiliedig ar gostiadau manwl a chynlluniau cyflenwi ar gyfer arbedion unigol (gan gynnwys arbedion trawsnewid/ad-drefnu).

Mae hanes da i'r awdurdod, o ran cyflawni ei gynlluniau arbedion.

Wrth ystyried ei gynlluniau ariannol byr-, canol- a hirdymor, mae'r awdurdod yn rhoi sylw priodol i'w allu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Mae'r cynllunio ariannol canoldymor a'r cyllidebu blynyddol yn adlewyrchu amcanion strategol yr awdurdod a'i flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, a thros y tymor hir.

Mae'r rhagdybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, y galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau cyflenwi'r wasanaethau wedi eu modelu a'i seilio ar ragolygon rhesymol.

Mae'r awdurdod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n deillio ohonynt, ac wedi adolygu ei ymagwedd at ffioedd a chodi tâl, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Mae'r prosesau cynllunio ariannol a chorfforaethol wedi eu hintegreiddio a'u cysylltu â'r trefniadau rheoli risgiau, ac yn ymgorffori cynllunio strategol ar gyfer adnoddau eraill, gan gynnwys y rhaglen gyfalaf a chynllunio gweithlu.

Mae'r awdurdod yn defnyddio modelu ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol a'r arbedion a fydd yn ofynnol mewn gwahanol senarios, ac er mwyn sicrhau na ddefnyddir datrysiadau byrdymor ar draul cynaliadwyedd hirdymor.

Mae'r awdurdod yn modelu'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno gwariant (er enghraifft newidiadau mewn poblogaeth a'r galw am wasanaethau), ffynonellau incwm (er enghraifft, y rhagolygon incwm a grantiau'r llywodraeth), yr effaith ar refeniw o ganlyniad i'r gofynion cyfalaf ac adnoddau a balansau.

Mae'r awdurdod yn gweithredu ar y lefel o gronfeydd wrth gefn a balansau (gan gynnwys y cronfeydd clustnodedig a balans y gronfa gyffredinol) a gymeradwywyd gan yr aelodau ac sy'n briodol ar gyfer y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol a wynebir gan yr awdurdod.

Pan nad yw'r awdurdod ar y lefel a dargedir ar gyfer balansau, mae camau gweithredu wedi eu cynllunio i sicrhau y cyrhaeddir y lefel honno, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw risgiau cysylltiedig i sefyllfa ariannol y sefydliad a'i allu i gyflenwi ei flaenoriaethau.

---

## Nodweddion allweddol rheolaethau ariannol da

Mae gan yr awdurdod bolisi rheoli cyllideb addas ac effeithiol, sy'n nodi'n eglur y rolau, y cyfrifoldebau a'r atebolrwydd. Mae'r cynllun dirprwyo yn eglur, a phrosesau wedi eu pennu ar gyfer rheoli tanwario a gorwario cyllidebol.

Mae'r monitro a'r rhagolygu ariannol yn addas i'w diben, yn seiliedig ar groniadau ac yn gymorth i sicrhau cysylltiad eglur rhwng y gyllideb, y rhagolygon o fewn y flwyddyn a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r awdurdod yn dadansoddi ac allosod tueddiadau perthnasol ac yn ystyried eu heffaith ar yr alldro terfynol a ddisgwylir.

Mae'r awdurdod yn gweithredu'n brydlon i ymateb i unrhyw bwysau ar y gyllideb, er enghraifft drwy gymryd camau i gywiro unrhyw amrywiadau anffafriol, neu drwy ailystyried y blaenoriaethau corfforaethol.

Mae hanes da i'r awdurdod yn y cyfnod diweddar, o ran gweithredu o fewn ei gyllideb heb orwario yn arwyddocaol.

Mae'r awdurdod wedi cytuno ar bolisi eglur ar ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn. Mae isafswm lefel balans y 'gronfa gyffredinol' wrth gefn wedi ei bennu a'i gyfiawnhau yn eglur. Mae rhesymeg eglur sy'n esbonio unrhyw drosglwyddiadau allan o'r cronfeydd wrth gefn, neu rhyngddynt. Mae protocolau eglur sy'n esbonio sut a pha bryd y dylid defnyddio pob un o'r cronfeydd wrth gefn. Ategir y penderfyniadau ynglŷn â chronfeydd wrth gefn gan asesiad cynhwysfawr o'r risgiau a'r perfformiad cyfredol.

Mae'r polisi ar gronfeydd wrth gefn wedi ei gytuno gan yr aelodau ac yn ddarostyngedig i graffu.

Mae gan yr awdurdod bolisi eglur ar gynhyrchu incwm/codi tâl. Cedwir cofrestr o'r ffioedd a godir ledled y gwasanaethau, er mwyn helpu'r awdurdod i'w rheoli gyda chysondeb. Mae gan yr awdurdod ganllawiau corfforaethol ar sut i weithredu consesiynau. Adolygir y ffioedd a diwedderir y polisi yn rheolaidd.

Mae'r awdurdod yn pennu ac yn monitro targedau heriol ar gyfer casglu incwm o'r categorïau perthnasol a chasglu ôl-ddyledion ar sail eu proffil oedran. Os yw'n ymddangos na chyrhaeddir y targedau, cymerir camau unioni priodol mewn da bryd yn ystod y flwyddyn er mwyn eu cyrraedd.

Nid yw'r awdurdod yn ysgrifennu ymaith ddyledion arwyddocaol, ar y sail na ellir eu casglu.

Mae'r awdurdod yn monitro ei gymarebau ariannol allweddol, yn eu meincnodi gyferbyn â chyrrff cyffelyb ac yn gweithredu arnynt fel y bo'n briodol.

Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r awdurdod.



---

## Nodweddion allweddol llywodraethu ariannol da

Mae'r tîm arweinyddol yn deall yn eglur yr heriau a'r risgiau sylweddol i reolaeth ariannol y sefydliad a'r modd y maent yn newid yn gyflym, ac yn cymryd camau priodol i sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog.

Mae'r prif swyddog ariannol yn aelod allweddol o'r tîm arweinyddol ac yn cymryd rhan egnïol yn yr holl benderfyniadau busnes, ac mewn hyrwyddo a chyflenwi rheolaeth ariannol dda.

Mae'r tîm arweinyddol yn meithrin amgylchedd o ddealltwriaeth dda lle mae'r rhagdybiaethau a'r perfformiad ariannol yn cael eu herio'n rheolaidd, a diwylliant o dryloywder ynghylch y sefyllfa ariannol.

Mae'r tîm arweinyddol yn ystyried y sgiliau ariannol sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol haenau o reolwyr a staff ledled y sefydliad, ac yn gweithredu'n egnïol i ddatblygu llythrennedd a sgiliau ariannol.

Mae'r tîm arweinyddol yn ymgymryd â chraffu a herio adeiladol ynghylch materion ariannol er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n parhau'n gadarn ac addas i'w diben.

Cyflwynir adroddiadau rheolaidd a thryloyw i'r aelodau. Mae'r adroddiadau yn cynnwys manylion am gynllunio gweithredu a dadansoddi amrywiol.

Mae'r aelodau yn craffu ar y perfformiad ariannol ac yn ei herio'n effeithiol, gan ddal y swyddogion yn atebol.

Mae gan yr awdurdod bwyllgor archwilio gwrthrychol a gwybodus sy'n darparu her effeithiol ledled yr awdurdod a sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer rheoli risg, cynnal rheolaethau mewnol effeithiol ac adrodd ar y perfformiad ariannol ac arall.

Rhoddir sylw i argymhellion gan archwilwyr mewnol ac allanol mewn modd effeithiol a phrydlon.

Ymgysylltir yn effeithiol â'r rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â'r gyllideb, gan gynnwys drwy ymgynghori â'r cyhoedd.

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	23 Mawrth 2016
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol Cyllid a Pherfformiad Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Alan Smith
<b>Teitl:</b>	Rheoli Risg ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn archwilio'r newidiadau sy'n ofynnol yn y ffordd rydym yn rheoli risg yn y Cyngor.

## 2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Er mwyn cydymffurfio â'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i'r Cyngor adolygu'r ffordd y mae'n rheoli risg. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rhai o'r materion mae'r newid hwn yn eu codi ar gyfer y Cyngor, ac yn ystyried ei effaith bosibl ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Nid oes unrhyw argymhellion. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth a thrafodaeth.

## 4. **Manylion yr adroddiad**

Mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys newidiadau pellgyrhaeddol i'r ffordd y mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ei fusnes. Er enghraifft, bydd angen iddo yn y dyfodol ddangos sut y mae'n cyfrannu at y saith nod trwy gyhoeddi amcanion Lles blynyddol. Yn fwy sylfaenol mae'r disgwyliad y bydd y Cyngor yn newid y ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau trwy gymryd i ystyriaeth y pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: Hirdymor; Atal; Integreiddio, Cydweithredu, Cynnwys.

Mae'r cyntaf o'r rhain - hirdymor - yn creu her arbennig ar gyfer rheoli risg. O dan delerau'r Ddeddf, mae hirdymor yn golygu tua 35 mlynedd neu fwy. Er bod gennym system gadarn o reoli risg gorfforaethol ar waith yn y Cyngor, mewn termau ymarferol, mae hyn yn gweithio i gorwel tymor byr o 2 i 3 blynedd, neu o leiaf, nid yn hwy na hyd 5 mlynedd y Cynllun Corfforaethol, felly er mwyn asesu risgiau tymor hir bydd yn cymryd ymagwedd newydd.

Gall risgiau yn fras gael eu rhannu yn dymor byr 'gweithredol' a thymor hir 'strategol'. Bydd rhagolwg risg tymor byr yn dal i fod yn ofynnol lle mae angen rheoli'r gwaith o gyflawni cynlluniau, y Cynllun Corfforaethol er enghraifft. Mae'r rhain o reidrwydd yn y tymor byr ac yn ymwneud â set hysbys o amcanion a gweithgareddau. Bydd ein dulliau rheoli risg presennol yn parhau i fod yn effeithiol yma.

Fodd bynnag, mae risgiau strategol megis y rhai a ragwelir gan y Ddeddf, nid yn unig yn hirdymor, ond yn wir yn 'risgiau cymunedol' a rennir gan y boblogaeth yn gyffredinol. Mae angen i risgiau o ordewdra, poblogaeth sy'n heneiddio neu newid hinsawdd, er enghraifft gael eu rheoli gyda'i gilydd. Nid ydynt o fewn rheolaeth y Cyngor, neu hyd yn oed y Sector Cyhoeddus yn gyffredinol; bydd y gymuned yn rhan o'r ateb, yn ogystal â rhan o'r broblem, a dyna pam y pwysigrwydd a roddir ar ymgysylltu yn Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ymgysylltu yn yr ystyr hwn yn golygu llawer mwy na dim ond gofyn i bobl am eu barn, mae'n ymwneud â'u cael i dderbyn perchnogaeth risg. Bydd partneriaethau strategol yn rhan o'r darlun hwn hefyd a bydd rhaid iddynt hefyd fabwysiadu model cyfunol o berchnogaeth risg.

Mae risgiau tymor hir strategol yn gymhleth i'w deall ac i'w rheoli - bydd angen parodrwydd i adolygu penderfyniadau polisi yng ngoleuni newidiadau o ran tystiolaeth. Efallai mai nid yr ateb iawn yn awr, fydd yr ateb cywir yn y dyfodol. Felly bydd canolbwyntio ar y risgiau i gyflawni canlyniadau dymunol yn galluogi proses o addasu mewnbynnau ac allbynnau yn wyneb amgylchiadau sy'n newid.

Bydd rheoli risgiau strategol hirdymor angen rhai ffyrdd newydd o wneud pethau, gan fod tymor hwy yn anochel yn golygu mwy o gymhlethdod ac ansicrwydd. I ddiffinio'r rhain ymhellach:

- Mae 'cymhlethdod' yn yr ystyr hwn yn cynnwys dau neu mwy o ddewisiadau dyrys a lle y gall yr ateb groesi disgyblaethau;
- Mae 'ansicrwydd' yn golygu'r anallu i ragweld yn union beth fydd yn digwydd ac y bydd yna bethau annisgwyl.
- Mae 'risg' yn ymwneud â canlyniadau hysbys ar gyfer digwyddiad penodol, y gellir neilltuo tebygolrwydd iddynt. Fel arfer mae gan y penderfynwr ddata hanesyddol i amcangyfrif y tebygolrwydd hynny arnynt

Fodd bynnag, yn achos risg strategol tymor hir, lle ceir cryn ansicrwydd, mae'r canlyniadau yn rhy ansicr i fod â thebygolrwydd. Oherwydd nad oes gan y penderfynwr ddata hanesyddol neu ddata hanesyddol cyfyngedig iawn ar gael i amcangyfrif tebygolrwydd, mae'n ofynnol dyfalu ddeallus yn lle hynny.

Bydd ymdrin ag ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r broses hon yn gofyn am y defnydd o 'ystod' o bosibiliadau o fewn goddefiannau y cytunwyd arnynt. Er enghraifft, efallai y byddwn yn rhagweld y bydd cyfran y bobl sy'n ordew yn y flwyddyn 2025 yn amrywio o 10% i 45% o'r boblogaeth yn seiliedig ar wybodaeth duedd bresennol. Dylai unrhyw liniaru neu reolaethau yr ydym yn bwriadu eu rhoi ar waith i reoli'r risg hon gael eu profi ar gyfer effeithiolrwydd ar draws yr ystod yr ydym yn meddwl sy'n bosibl. Felly, efallai y bydd cynllunio i sefydlu cynghorydd arbenigol ar ordewdra ym mhob meddygfa yn ddefnyddiol yn y pen 10% i'r sbectrwm, ond byddai yn annigonol i ddelio â sefyllfa lle mae 45% o'r boblogaeth yn ordew. Byddai angen mesurau eraill.

Felly, mae camau lliniaru ar gyfer y risgiau cymhleth hyn yn debygol o gynnwys ystod o opsiynau i gyd-fynd â'r ystod o ganlyniadau posibl. Bydd y meddwl hwn yn cael ei gefnogi gan gynllunio senarios, lle mae posibiliadau ar draws amrywiaeth o ffactorau cyd-ddibynnol yn cael eu modelu. Yn achos y risg gordewdra a ddefnyddir uchod, mae llawer o bethau a allai ddylanwadu ar y duedd, er enghraifft, gallai gosod 'treth

siwgr' leihau'r faint o bobl sy'n yfed diodydd llawn siwgr afiach. Fel arall (neu yn ogystal) gallai cau cyfleusterau hamdden wneud ymarfer corff yn fwy anodd. Byddai cynllunio senarios yn ceisio nodi'r ystod hon o 'fydoedd' posibl yn y dyfodol ac ein helpu i feddwl sut i reoli'r risgiau y maent yn ymddangos eu bod yn eu cyflwyno.

Yn ymhlyg yn y Ddeddf newydd yw y dylai **pob** proses penderfyniadau gael ei hamodi gan y ffrâm amser sy'n cael ei effeithio. A yw penderfyniad yn effeithio ar yr wythnosau nesaf (e.e. dyddiad cyfarfod), y 10 mlynedd nesaf (e.e. ansawdd cegin newydd mewn Tŷ Cyngor), yr ugain mlynedd nesaf (e.e. cyflawniad arholiadau ysgolion) neu 35 mlynedd (e.e. tref newydd, fel Bodelwyddan). Mae angen i'r pwysau a'r ystyriaeth a roddwn i risgiau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau adlewyrchu eu hamserlen effaith. Mae disgrifio risgiau fel pethau a fydd yn effeithio ar ein Plant neu ein Hwyrion a Hwyrresau yn ffordd effeithiol i feddwl am y peth.

Gallwn fod yn hyderus bod ein proses risg gweithredol gyfredol yn addas at y diben; y dasg mwy o faint yn awr yw dechrau datblygu'r offer a'r technegau a fydd yn ein helpu i fodelu'r dyfodol yn well nag yr ydym yn ei wneud yn awr. Fel Cyngor, rydym yn gweithio gydag Awdurdodau partner i ddatblygu dull o asesu effaith a fydd yn helpu gyda'r meddylfryd hwn. Rydym hefyd yn treialu gwaith gwydnwch yn y gymuned y bwriedir iddo hybu meddwl hirdymor ac ymgysylltiad adeiladol ar broblemau a rennir (Pobl i Bobl yn Llangollen). Bydd gwaith pellach yn datblygu wrth i ni ddechrau defnyddio'r 5 Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad yma, ond bwriad yr adroddiad yw cefnogi gwaith y pwyllgor o ran sicrhau bod llywodraethu risg y Cyngor yn effeithiol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol wedi eu nodi ar gyfer unrhyw Wasanaeth. Fodd bynnag, bydd y gofyniad i newid y ffordd rydym yn meddwl am risg yn effeithio ar yr holl Wasanaethau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AoEaG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AoEaG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Bod gan yr adroddiad ddim goblygiadau o ran Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**  
*Amh.*

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**  
Dim angen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg i enw da a risg rheoleiddiol ar gyfer y Cyngor os byddwn yn methu â bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**  
*Nid oes angen penderfyniad.*

Well-Being of Future Generations Act Risk  
Management  
23 03 2016

Equality Impact Assessment

# Well-Being of Future Generations Act Risk Management>

**Contact:** Alan Smith, Business Improvement & Modernisation>

**Updated:** <08/03/2016>

## 1. What type of proposal / decision is being assessed?

A new procedure

## 2. What is the purpose of this proposal / decision, and what change (to staff or the community) will occur as a result of its implementation?

<The purpose of this proposal is to improve the way the Council is able to manage long term strategic risk so that it can comply with the requirements of the WBFG ACT>

## 3. Does this proposal / decision require an equality impact assessment? If no, please explain why.

*Please note: if the proposal will have an impact on people (staff or the community) then an equality impact assessment **must** be undertaken*

No

The proposal is for discussion purposes only, and is to help the Corporate Governance Committee understand how the Council will need to develop its processes to comply with the WBFG Act.>

## 4. Please provide a summary of the steps taken, and the information used, to carry out this assessment, including any engagement undertaken

*(Please refer to section 1 in the toolkit for guidance)*

<Type here>

## 5. Will this proposal / decision have a positive impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?



(Please refer to section 1 in the toolkit for a description of the protected characteristics)

<Please summarise any likely positive impact and identify which protected characteristics will benefit>

**6. Will this proposal / decision have a disproportionate negative impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?**

<Please summarise any disproportionate negative impact and identify which protected characteristics will be affected>

**7. Has the proposal / decision been amended to eliminate or reduce any potential disproportionate negative impact? If no, please explain why.**

<Please Select>	<If yes, please provide detail>
-----------------	---------------------------------

**8. Have you identified any further actions to address and / or monitor any potential negative impact(s)?**

<Please Select>	<If yes please complete the table below. If no, please explain here>
-----------------	----------------------------------------------------------------------

Action(s)	Owner	By when?
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Unrestrict editing to insert additional rows>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>

**9. Declaration**

Every reasonable effort has been made to eliminate or reduce any potential disproportionate impact on people sharing protected characteristics. The actual impact of the proposal / decision will be reviewed at the appropriate stage.

Review Date:	<08/03/2016>
--------------	--------------

Name of Lead Officer for Equality Impact Assessment	Date
Alan Smith	<08/03/2016>

**Please note you will be required to publish the outcome of the equality impact assessment if you identify a substantial likely impact.**

---

<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	23 Mawrth 2016
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol
<b>Teitl:</b>	<b>Diweddariad Rheoli Fflyd Corfforaethol</b>

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd gyda'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Fflyd Corfforaethol ym mis Hydref 2015.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau mewn rheoli fflyd ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Rhoddodd yr adroddiad archwilio 'Sicrwydd Isel', felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn adolygu cynnydd a phenderfynu a oes angen adroddiad cynnydd pellach.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Atodiad 1 yw'r cynllun gweithredu dilynol Archwilio Mewnol, sy'n dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud gyda gweithredu'r materion a'r risgiau a nodwyd gan Archwilio Mewnol. Gan mai dim ond archwiliad dilynol interim oedd hwn, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd a byddwn yn cyhoeddi adroddiad dilynol ffurfiol tro nesaf gyda sgôr sicrwydd newydd.

Er bod rhai camau gweithredu sy'n weddill yn dal i fod, mae'r prif faterion eisoes wedi cael sylw, megis datblygu Polisi Cludiant newydd y mae angen ei gymeradwyo a'i gyhoeddi bellach. Mae materion iechyd a diogelwch hefyd wedi cael sylw trwy wella gweithdrefnau sefydlu, adolygu adrodd am ddigwyddiadau a gwella prosesau trwyddedau gyrwyr.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Amherthnasol - Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**  
Amherthnasol - Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.
- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**  
Amherthnasol - Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.
- 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**  
Amherthnasol - Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.
- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**  
Amherthnasol - Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

# Action Plan

**Audit Follow-up Review of:** Corporate Fleet Management

**Date:** March 2016

**Action Plan Contacts:**

Jim Espley – Waste & Transport Manager

Chris Brown – Fleet Maintenance Manager

Jason Ballard – Corporate Road Risk Advisor

Corporate Risk/Issue Severity Key	
	<b>Critical</b> – Significant CET and Cabinet intervention
	<b>Major</b> – intervention by SLT and/or CET with Cabinet involvement
	<b>Moderate</b> – Containable at service level. Senior management and SLT may need to be kept informed

Risk/Issue No.	Risk/Issue	Agreed Action Responsibility & Timescale	Current Status	Further Action Needed
1. Tudalen 93	The Transport Policy is out of date and was removed from the intranet for this reason. Without effective communication of each driver’s responsibility and acceptable use of Council vehicles, there is a risk that non-compliance is not taken seriously. Communication is needed at all levels of the organisation, supported by the Senior Leadership Team (SLT) to ensure that it is read and applied by all employees.	The Waste & Transport Manager will present the revised Transport Policy at a SLT meeting to promote staff awareness and get senior management buy-in. <b>Waste &amp; Transport Manager – December 2015</b>	<b>In progress</b> The review of the Transport Policy is now complete and the Waste and Transport Manager will request for it to be included on the next SLT meeting agenda. This will be supplemented with a one page summary for SLT to be made aware of key changes.  There are also plans for separate Drivers Handbook for drivers to reference to key matters.  <b>Revised date April 2016</b>	Transport Policy to be sent to SLT for agreement along with a summary of key changes.  Once agreed, roll out to all services and promote awareness with drivers of Council vehicles.

Risk/ Issue No.	Risk/Issue	Agreed Action Responsibility & Timescale	Current Status	Further Action Needed
Tudalen 94	<p>2. Ineffective identification of vehicles reaching the end of their economic life can lead to unnecessary costs e.g. extra maintenance work needed and leasing to replace vehicles that are no longer serviceable.</p>	<p>Lists of vehicles will be reviewed at Fleet &amp; Service Review meetings to identify vehicles that are reaching an end of their economic life. An assessment on the continued use or replacement will be identified and recorded.</p> <p>(Meetings with Street Scene, Building Services, Street Lighting and Housing Services have taken place, with Waste Services, Countryside Services and Social Services left to do).</p> <p>Service users will be trained on how to interpret and use the monthly management information report, which will help them to understand which vehicles are no longer economical to maintain.</p> <p><b>Waste &amp; Transport Manager / Fleet Performance Manager – January 2016</b></p>	<p><b>In progress</b> Service review meetings have been held with the main service users and the Waste &amp; Transport Manager has devised a schedule for other service users.</p> <p>At these meetings, the Waste &amp; Transport Manager will go through the monthly management information report and, if needed, provide support to service managers on its use and interpretation to identify vehicles that are costly to maintain so that they can plan for their replacement where relevant.</p> <p><b>Revised date April 2016</b></p>	<p>Service review meetings to be held with all service user representatives and key actions from the meeting captured to ensure that they are progressed.</p>
	<p>Although it has improved, communication between Fleet Services and service users (and vice versa) is causing avoidable service downtime. Fleet Services has recently started to meet key service user representatives to discuss performance and recurring issues. Periodic meetings should be arranged with all fleet user services, with a set agenda and a record kept of the agreed actions for both parties.</p>	<p>Fleet &amp; Service Review meetings are scheduled, a standard agenda is defined (although additional agenda items can be added), and minutes are now formally recorded.</p> <p><b>Waste &amp; Transport Manager / Fleet Performance Manager – December 2015</b></p>	<p><b>In progress</b> Some service review meetings have been held with key service user representatives and a schedule of future service review meetings has been set to cover all service users.</p> <p><b>Revised date April 2016</b></p>	<p>Carry out the schedule of forthcoming meetings with all service user representatives and capture key actions to ensure their implementation can be reviewed at future meetings</p>

Risk/ Issue No.	Risk/Issue	Agreed Action Responsibility & Timescale	Current Status	Further Action Needed
4.	Few formal agreements are in place with Fleet Services' external customers to protect its cash flow and contractual position by stipulating a cooling off period for ending a maintenance arrangement.	A trigger of £15,000 will be introduced, whereby when an external customer's work exceeds this defined value, a service level agreement will be issued (to include provision for 30-day notice of service break). <b>Fleet Performance Manager - December 2015</b>	<b>No progress to date</b> The Waste & Transport Manager, in discussion with Finance, to set up a mechanism for notifying Fleet Services when a supplier was nearing the threshold.  The Principal Finance Officer confirmed that they would not have the necessary information to identify which external customer was nearing the threshold.  <b>Revised date April 2016</b>	Fleet Services needs to set up a mechanism to identify when services to external customers hit the agreed threshold, so that a service level agreement can be arranged.
5.  Tudalen 95	Fleet Services has limited policies and procedures in place to guide consistent practices, support business continuity, and health and safety or fraud investigation. This includes, but is not limited to: <ul style="list-style-type: none"> <li>• guidance for new workshop employees; and</li> <li>• disposal of vehicles i.e. redeployment, available methods for disposal, treatment of proceeds from sales, and capture the reason and approval for the disposal.</li> </ul>	Current policies and procedures in place include: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Health and safety - risk assessments, safe working procedures are in place.</li> <li>• Toolbox talks are regularly provided to staff (and recorded).</li> <li>• New employees are inducted via use of the corporate induction form.</li> </ul> This will be supplemented by: <ul style="list-style-type: none"> <li>• As part of the induction process, new employees will be required to read health and safety procedures and sign to evidence this. This will incorporate emergency procedures, accident reporting and first aid.</li> <li>• Disposal of vehicles will be incorporated into the Transport Policy (see Risk/Issue 1).</li> </ul> <b>Waste &amp; Transport Manager / Fleet Performance Manager / Fleet Maintenance Manager - October 2015</b>	<b>Complete</b> The Corporate Induction Pack is used along with site specific guidance that has been developed.  A HSE inspection (December 2015) of the Fleet Depot advised Fleet Services that new starters should be given the necessary Safe Working Procedures to read and then conduct a test to evaluate their understanding to make sure is it sufficient. This will be applied to future new starters, and a record kept.  New HGV fitter started in February 2016, so scope to check that records in place as described.  Disposal Procedures are included in the recently revised Transport Policy.	

Risk/ Issue No.	Risk/Issue	Agreed Action Responsibility & Timescale	Current Status	Further Action Needed
6.	The Fleetmaster system is a legacy system with limited vendor support and its reporting function is weak. There is an opportunity to streamline the workshop's paper-heavy processes and reduce non-productive time through using a more modern fleet management system.	A business case for a new system will be developed (ICT to be part of any subsequent procurement). Funding streams e.g. Modernisation Board will be investigated to cover the purchase cost. <b>Waste &amp; Transport Manager / Fleet Performance Manager / ICT - April 2016</b>	<b>Not yet due for completion</b> Fleet Services is in discussion with its ICT Business Partner (Rob Douglass) and developing specification for the replacement software.  All neighbouring Councils use the same specialist software (i.e. Tranman) and so options and costs are currently being investigated.	
		If agreed, a new fleet management system will be implemented to replace the existing Fleetmaster system. <b>Waste &amp; Transport Manager / Fleet Performance Manager / ICT - April 2017</b>	<b>Not yet due for completion</b>	
Tudalen 96	Although two thirds of the employees that drive a Council vehicle have completed a form (D796) allowing Fleet Services to check their driving licence validity, there is no evidence that managers check driver licences as	As per Risk/Issue 1, the Transport Policy will be updated to clarify roles and responsibilities for carrying out driver licence checks. <b>Waste &amp; Transport Manager - December 2015</b>	<b>Complete</b> Transport Policy & Procedures have been updated to include this requirement. See Risk Issue 1 for further details.	Link to Risk/Issue 1. Once the Transport Policy obtains all necessary approval, it needs to be communicated to all relevant users.



Risk/ Issue No.	Risk/Issue	Agreed Action Responsibility & Timescale	Current Status	Further Action Needed
